Hawdd ei Ddeall

AMGUEDDFA CYMRU

# Ein cynllun ar gyfer trin pobl yn gyfartal ac yn deg

## Beth fyddwn ni'n ei wneud rhwng 2025 a 2028












Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Amgueddfa Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2025 - 2028**'.

**Mawrth 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 17.**

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni,** mae hyn yn meddwl **Amgueddfa Cymru.** Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** amgueddfa.cymru

**E-bost:** post@museumwales.ac.uk

**Ffôn:** 0300 111 2 333

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys

**Amdanom ni** ........ **4**

**Am y cynllun yma** ........ **5**

**Ein cynllun** ........ **10**

- Ein ymwelwyr a'n cymunedau ........ 13
- Ein diwylliant ........ 14
- Ein harweinwyr ........ 16

**Geiriau anodd** ........ **17**

# Amdanom ni

AMGUEDDFA CYMRU

Ni ydy **Amgueddfa Cymru.** Rydyn ni'n rhedeg yr amgueddfeydd cenedlaethol yng Nghymru.



Rydyn ni'n elusen gyda 7 amgueddfa ac 1 ganolfan gasgliadau yng Nghymru. Rydych chi'n gallu ymweld â'n hamgueddfeydd am ddim, ac mae croeso i bawb.



Rydyn ni eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a gallu cymryd rhan ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud:

- Pwy bynnag ydyn nhw.
- O lle bynnag maen nhw'n dod.
- Beth bynnag ydy eu hanghenion.

# Am y cynllun yma




Dyma ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol.** Mae’n dweud beth fyddwn ni’n ei wneud i wneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.




Dyma gynllun ar gyfer ein gwaith yn 2025 i 2028. Mae’n adeiladu ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwethaf oedd yn rhedeg rhwng 2022 a 2025.



Fe fyddwn ni yn gwneud newidiadau ac yn dilyn y deddfau am bethau fel:



- **Llesiant** - mae hyn yn meddwl iechyd a hapusrwydd pobl.




- Yr iaith Gymraeg



- **Gwrth-hiliaeth.** Mae **hiliaeth** yn golygu trin pobl yn annheg oherwydd eu cefndir, diwylliant, credoau neu sut maen nhw’n byw

  Mae **gwrth-hiliaeth** yn golygu gweithredu yn erbyn hiliaeth, newid rheolau a’r ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg.



- Anabledd.



Ond rydyn ni eisiau gwneud mwy na dilyn deddfau yn unig. Rydyn ni eisiau gosod esiampl dda a gwneud mwy i wella pethau i bobl.



Fe fyddwn ni yn gwneud llawer mwy o waith i wella:



- **Cydraddoldeb** – mae hyn yn meddwl trin pobl yn gyfartal ond yn deg



- **Amrywiaeth** – mae hyn yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae gan bobl anghenion gwahanol. Yn dod o wahanol leoedd. Gyda gwahanol gredoau a dewisiadau.



- **Cynhwysiant** – mae hyn yn meddwl bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan a theimlo eu bod yn cymryd rhan.



- **Llesiant**



Mae wedi bod yn gyfnod anodd ac rydyn ni wedi wynebu llawer o heriau. Mae gennym ni lai o arian i wneud ein gwaith.



Ond rydyn ni'n gyffrous am ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys gwneud pethau fel:



- gweithio ar welliannau i **Amgueddfa Lechi Cymru.**



- gweithio gyda phartneriaid i wella sut mae pobl yn ymweld a phrofi safleoedd Rhufeinig yng Nghaerllion, Casnewydd.



Rydyn ni eisdiau ei gwneud hi'n haws i unrhyw un wneud pethau fel:



- Ymweld â'n hamgueddfeydd



- Gweithio i ni



- Gwirfoddoli gyda ni



- Defnyddio ein gwasanaethau.

# Ein cynllun

Mae’r cynllun wedi ei seilio ar 3 maes:



- **Ein ymwelwyr a’n cymunedau.**



- **Ein diwylliant – mae hyn yn meddwl sut rydyn ni’n gwneud pethau.**



- **Ein harweinwyr.**







Fe fydd y cynllun yn rhedeg am 3 blynedd rhwng 2025 a 2028.




Fe fyddwn ni yn edrych ar ein gwaith ar y cynllun yma 4 gwaith y flwyddyn. Fe fyddwn ni yn ysgrifennu adroddiad am ein cynnydd bob blwyddyn.




Fe fydd nodau i weithio tuag atyn nhw a chamau gweithredu i'w gwneud. Fe fydd staff gwahanol yn gyfrifol am rai amcanion.



Fe fyddwn ni yn gofyn am adborth gan eraill ar sut rydyn ni yn gwneud. Mae hyn yn cynnwys y grŵp rydyn ni'n rhan ohono o'r enw y **Tasglu Ehangu Ymgysylltu.** Mae hwn yn grŵp am gael pobl i gymryd rhan a bod yn **gynhwysol**.




Fe fyddwn ni yn gwneud newidiadau i'r cynllun os bydd angen.



Fe fyddwn ni yn edrych ar beth mae sefydliadau eraill yn ei wneud am **gydraddoldeb** ac yn gwneud yn siŵr ein bod yn dysgu oddi wrthyn nhw.

# Ein ymwelwyr a'n cymunedau

Rhai o'n hamcanion yn y maes hwn ydy:



- Gweithio gyda chymunedau **amrywiol** yng Nghymru i weld os ydyn nhw'n gallu defnyddio ein gwasanaethau.



- Fe fyddwn ni yn gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn cynrychioli poblogaeth **amrywiol** Cymru.



- Gwella ein cyfathrebu gydag ymwelwyr a chymunedau ar draws Cymru. Er enghraifft, datblygu'r defnydd o'r Gymraeg, Sain, Hawdd ei Ddeall ac ieithoedd eraill.



- Gwrando ar gymunedau **amrywiol** a gofyn i bobl gymryd rhan yn ein gwaith.



- Gwneud rhaglen ar gyfer a gyda phlant a phobl ifanc.

# Ein diwylliant

Rhai o'n hamcanion yn y maes yma ydy:



- Bod yn gyflogwr y mae pobl eisiau gweithio iddo.



- Gwella sut rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr ein bod yn recriwtio, datblygu a chadw'r bobl orau.



- Annog grwpiau **amrywiol** i ymuno â ni. Darparu cefnogaeth fel eu bod nhw'n gallu gwneud yn dda yn ein sefydliad.




- Gwneud yn siŵr ein bod yn **wrth-hiliol** ac yn trin pawb yn deg. Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael yr un cyfleoedd, beth bynnag ydy eu hanghenion.



- Gwneud yn siŵr bod staff yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi.



- Cefnogi datblygiad gyrfaoedd.



- Gwneud adroddiadau a chynlluniau am sut rydyn ni’n gwneud a sut rydyn ni’n gallu gwella.

# Ein harweinwyr

Rhai o'r amcanion sydd gennym ni ar gyfer y maes yma ydy:




- Gwneud yn siŵr bod ein harweinwyr yn cyflawni'r cynllun yma. Fe fyddan nhw'n ysgrifennu cynllun bob blwyddyn sy'n dweud beth sydd angen ei wneud.



- Gwneud gwaith da, nid dim ond y pethau sylfaenol.



- Gwneud yn siŵr bod arweinwyr yn grymuso eraill. Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo eu bod nhw'n gallu dweud eu dweud a chymryd rhan mewn penderfyniadau.



- Gwneud yn siŵr bod ein harweinwyr a'n rheolwyr yn **amrywiol**.

# Geiriau anodd

### Amrywiaeth

Mae hyn yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Mae gan bobl anghenion gwahanol. Yn dod o wahanol leoedd. Gyda gwahanol gredoau a dewisiadau.

### Cydraddoldeb

Mae hyn yn meddwl trin pobl yn gyfartal ond yn deg.

### Cynhwysiant

Mae hyn yn meddwl bod pobl yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan a theimlo'n rhan o'r broses.

### Gwrth-hiliaeth

Mae gwrth-hiliaeth yn golygu gweithredu yn erbyn hiliaeth, newid rheolau a'r ffordd yr ydym yn gweithio i sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg.

### Hiliaeth

Mae hiliaeth yn golygu trin pobl yn annheg oherwydd eu cefndir, diwylliant, credoau neu sut maen nhw'n byw.

### Llesiant

Mae hyn yn meddwl iechyd a hapusrwydd pobl.